



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Pwyllgor Archwilio

Arian ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru

Adroddiad Pwyllgor AC(3) 13-08
Rhagfyr 2008

Gellir dod o hyd i gopi o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gallwch gael rhagor o gopiau o'r adroddiad hwn gan:
Y Pwyllgor Archwilio
Gwasanaeth y Pwyllgor
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffon: 029 2089 8617
Ffacs: 029 2089 8021

Ebost: Audit.Comm@Wales.gsi.gov.uk

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU:

Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Adroddiad a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10
Rhagfyr yn unol ag adran 143(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

Arian ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru

Cynnwys

Paragraffau

Crynodeb ac argymhellion

1 – 12

Rheolodd yr arianwyr y risgiau'n dda wrth ariannu'r gwaith
adeiladu, er bod rhai gwersi i'w dysgu o hyd

13 – 26

Yn gyffredinol, nid oedd yr arianwyr yn ddigon effro i'r
risgiau yn y cyfnod gweithredol, ac unwaith yr agorodd y
Ganolfan, roedd gwaith monitro Llywodraeth y Cynulliad yn
gwbl annigonol

27 – 45

ATODIADAU

Atodiad A

Cofnod o drafodion Pwyllgor Archwilio'r Trydydd
Cynulliad, dydd Iau, 9 Hydref

Crynodeb

1. Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn adeilad nodedig, ac yn gartref i saith o sefydliadau preswyl, gan gynnwys Opera Cenedlaethol Cymru. Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnal amrywiaeth o berfformiadau i gynulleidfaoedd yng Nghymru a thu hwnt. Ers iddi agor ym mis Tachwedd 2004, mae'r Ganolfan wedi denu dros filiwn o bobl yn gynulleidfa, ynghyd â thair miliwn o ymwelwyr cyffredinol. I raddau helaeth, y sector cyhoeddus a ariannodd y £109 miliwn a gostiodd y Ganolfan i'w hadeiladu (Ffigur 1).

Ffigur 1: Arian cyfalaf ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru

<i>Ariannwr</i>	<i>£ miliwn</i>
Llywodraeth Cynulliad Cymru	37.0
Comisiwn y Mileniwm	31.7
Cyngor Celfyddydau Cymru	9.8
Asiantaeth Datblygu Cymru (WDA)	4.0
Arian cyhoeddus arall	3.4
Arian arall (arian preifat gan gynnwys lwfansau treth gyfalaf, rhoddion a benthyciad)	23.4
Cyfanswm y gost*	109.3

* £106.2 miliwn fel y'i cymeradwywyd gan Lywodraeth y Cynulliad, ynghyd â thua £3 miliwn ar gyfer rhagor o ddigwyddiadau diwylliannol, y gala agoriadol a chostau eraill ar gyfer y prosiect

Ffynhonnell: Archwilydd Cyffredinol Cymru

2. O'r cychwyn, roedd prosiect y Ganolfan yn un ag iddo risgiau mawr. Mae codi adeiladau eiconig ac amlwg bob tro'n risg, ac mae nifer fawr o brosiectau adeiladu cyhoeddus wedi bod yn dyst i'r anawsterau sydd ynghlwm wrth gyflawni'r gwaith ar amser ac o fewn y gost. Roedd cynllun busnes Canolfan Mileniwm Cymru yr un mor uchelgeisiol, ac iddo'r nod o gydbwysu'r gofynion masnachol hanfodol yr y naill law, a'r amcanion diwylliannol a chymdeithasol ar y llall.
3. Ar sail adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru,¹ clywodd y pwyllgor dystiolaeth gan Huw Brodie a John Howells o Adran Dreftadaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, a Nick Capaldi a Kath Davies o Gyngor Celfyddydau Cymru. Y bwriad oedd canfod a oedd y prif arianwyr o'r sector cyhoeddus – sef Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor y Celfyddydau – wedi rheoli'r risgiau'n

¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Arian ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru*, Hydref 2008

effeithiol wrth ariannu Canolfan Mileniwm Cymru. Daethom i'r casgliadau canlynol:

- rheolodd yr arianwyr y risgiau'n dda wrth ariannu'r gwaith adeiladu, er bod rhai gwersi i'w dysgu o hyd;
- yn gyffredinol, nid oedd yr arianwyr yn ddigon effro i'r risgiau yn y cyfnod gweithredol, ac unwaith yr agorodd y Ganolfan, roedd gwaith monitro Llywodraeth y Cynulliad yn gwbl annigonol.

Rheolodd yr arianwyr y risgiau'n dda wrth ariannu'r gwaith adeiladu, er bod rhai gwersi i'w dysgu o hyd

4. Aeth amser hir heibio cyn i brosiect y Ganolfan ddwyn ffrwyth, gyda phroblemau wrth gaffael y gwaith adeiladu'n achosi oedi. Yn ein barn ni, byddai wedi bod yn bosibl osgoi neu leihau rhywfaint o'r oedi pe bai'r arianwyr wedi cydweithio'n well yn ystod y broses gaffael. Serch hynny, llwyddodd yr arianwyr i weithio'n effeithiol er mwyn rhoi sail gadarn i'r prosiect cyn bwrw ymlaen. Yn benodol:
 - cymerodd Llywodraeth y Cynulliad gamau cyfrifol ym mis Ebrill 2001 wrth fynnu bod y Ganolfan yn caffael am bris penodedig ac yn rhoi sicrwydd ynghylch llywodraethu corfforaethol er mwyn lleihau'r risg ariannol cymaint â phosibl;
 - aeth Cyngor Celfyddydau Cymru i'r afael yn effeithiol â'i bryderon ynghylch y risg o ran ansawdd yr adeilad – drwy sicrhau, er enghraifft, fod y penseiri gwreiddiol yn rhan o'r tîm adeiladu.
5. Fodd bynnag, pan gafwyd cyfle i bleidleisio ar y prosiect yn y Cyfarfod Llawn ym mis Ionawr 2002, rydym yn pryderu na fu Llywodraeth y Cynulliad yn ddigon agored ynghylch ariannu'r prosiect a'r risgiau a oedd yn dal i fodoli. Yn ein barn ni, cyfyngodd Llywodraeth y Cynulliad ar ei hyblygrwydd ym mis Ebrill 2001 drwy ddatgan na fyddai'r prosiect yn mynd yn ei flaen pe bai'n costio mwy na £92 miliwn. Er mwyn ceisio dangos y byddai modd pasio'r prawf hwn, er mai £104 miliwn oedd cost y prosiect, nid oedd Llywodraeth y Cynulliad yn ddigon agored ynghylch y cynnydd o £4 miliwn yn ei harian ar gyfer y prosiect nac ynghylch y risgiau a oedd yn dal i fodoli o ran gorwario a diffygion mewn cyllid.

6. Ar gyfer y cyfnod adeiladu, datblygodd yr arianwyr drefniadau i fonitro ar y cyd, gan rannu monitor i'r prosiect, cynnal cyfarfodydd a llunio adroddiadau misol. Cytunwn â'r Archwilydd Cyffredinol fod y trefniadau hyn i fonitro ar y cyd yn arfer da. Serch hynny, mae gwersi i'w dysgu o'r cyfnod adeiladu. Ni roddodd Llywodraeth y Cynulliad ddigon o ystyriaeth i'r dewisiadau eraill wrth gytuno i warantu benthyciad banc i Ganolfan Mileniwm Cymru (benthyciad o £10 miliwn yn wreiddiol, a gododd i £13 miliwn). Nid oedd Llywodraeth y Cynulliad ychwaith yn ddigon effro i'r risgiau ariannol a achoswyd gan ddiffygion mewn cyllid a gorwario ar ddiwedd y cyfnod adeiladu. Yn benodol, nid oedd yn deall sefyllfa ariannol y Ganolfan yn ddigon da, ac yn enwedig ei gallu i ad-dalu ei benthyciad banc, wrth symud i'r cyfnod gweithredol.

Yn gyffredinol, nid oedd yr arianwyr yn ddigon effro i'r risgiau yn y cyfnod gweithredol, ac unwaith yr agorodd y Ganolfan, roedd gwaith monitro Llywodraeth y Cynulliad yn gwbl annigonol

Dadansoddi'r cynlluniau busnes

7. Ar y dechrau, ceisiodd yr arianwyr ddysgu gwersi o brosiectau diwylliannol amlwg eraill, lle'r oedd rhagolygon y cynlluniau busnes wedi bod yn rhy optimistaidd. Roedd Cyngor y Celfyddydau a Llywodraeth y Cynulliad wedi adolygu'r fersiynau cynnar o gynlluniau busnes y Ganolfan. Roedd Cyngor y Celfyddydau yn amheus o'r cynllun a gyhoeddodd y Ganolfan ym mis Medi 2000, a oedd yn honni y byddai'r Ganolfan yn gallu ei hariannu ei hun heb unrhyw gymorthdaliadau cyhoeddus. Roedd Cyngor y Celfyddydau hefyd yn pryderu am y costau posibl i sefydliadau preswyl y Ganolfan a gâi arian gan y Cyngor. Comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad ymgynghorwyr allanol, sef PricewaterhouseCoopers, i adolygu cynllun busnes mis Medi 2000, er bod yr adolygiad hwn yn gyfyngedig ac er nad oedd yn rhoi sicrwydd llwyr ynghylch rhagolygon y rheolwyr, a oedd yn sail i'r cynllun.
8. Mae'n arbennig o arwyddocaol na chafwyd arbenigwyr annibynnol i graffu ar gynllun y Ganolfan ym mis Mai 2001, gan mai dyma oedd y cyfle olaf i ganfod problemau a mynd i'r afael â hwy cyn cymeradwyo'r prosiect. Ym mis Ebrill 2001, cytunodd Llywodraeth y Cynulliad y byddai'n darparu grant refeniw blynyddol i'r prosiect pe bai'n mynd yn ei flaen, a hwnnw'n cynnwys cymhorthdal refeniw o £750,000 a £450,000 ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Byddai'r arian hwn yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r Ganolfan, ynghyd ag £800,000 i rai o'r cwmnïau preswyl, er mwyn talu eu costau uwch. Ym mis

Mai 2001, lluniodd y Ganolfan gynllun newydd i adlewyrchu'r refeniw ychwanegol hwn. Fodd bynnag, roedd y cynllun wedi'i seilio ar ddarparu rhaglen fwy costus yn y theatr, o safon ryngwladol, ac roedd hynny'n newid sylfaenol yn uchelgais ddiwylliannol y Ganolfan. Ni lwyddodd yr arianwyr i graffu ar sut y byddai'r newid arwyddocaol hwn yn nyheadau artistig y Ganolfan yn effeithio ar ei dichonolrwydd ariannol, ac roedd hynny'n gamgymeriad sylweddol.

9. Unwaith i'r gwaith adeiladu ddechrau, dechreuodd y Ganolfan addasu ei chynlluniau busnes a manylu arnynt. Arweiniodd hynny at gynllun diwygiedig ym mis Hydref 2003, a ragwelai golled o £1.4 miliwn yn y flwyddyn gyntaf. Penodwyd ymgynghorwyr gan Gyngor y Celfyddydau i adolygu'r cynllun, ac ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad, daethpwyd i gytundeb â'r Ganolfan y byddai'n llunio cynllun newydd yn dangos sut y byddai'n talu'i chostau dros y pum mlynedd cyntaf gyda'r setliad arian refeniw a gynigiwyd iddi. Cyhoeddodd y Ganolfan ei chynllun newydd ym mis Gorffennaf 2004. Cafodd y cynllun hwn ei adolygu gan ymgynghorwyr Cyngor y Celfyddydau, a ddaeth i'r casgliad bod posibilrwydd credadwy y byddai'r Ganolfan yn llwyddo i dalu'i chostau, ond bod risg fawr hefyd y byddai'n colli mwy na £200,000 y flwyddyn. Argymhellodd yr ymgynghorwyr fod y Ganolfan yn datblygu cynlluniau wth gefn a pholisïau clir ar gyfer diffygion annisgwyladwy.

Monitro

10. Er gwaethaf y risgiau amlwg, ni luniodd Llywodraeth y Cynulliad gynllun eglur ar gyfer monitro prosesau gweithredol y Ganolfan. At hynny, ni wnaeth Cyngor y Celfyddydau na Llywodraeth y Cynulliad weithredu ar sail argymhellion yr ymgynghorwyr ynghylch diffygion annisgwyladwy a chynlluniau wrth gefn. Erbyn i'r Ganolfan agor, roedd ei sefyllfa ariannol yn edrych yn fwy bregus o lawer gan fod ganddi fenthyciad llawer uwch i'w dalu na'r sefyllfa waethaf a ragwelwyd yn y cynllun busnes. Er gwaethaf hyn oll, dewisodd Llywodraeth y Cynulliad aros i weld, yn hytrach na gweithredu a chynllunio er mwyn canfod, asesu a monitro'r risgiau. Canolfan Mileniwm Cymru yw'r unig sefydliad celfyddydol y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ariannu'n uniongyrchol, sy'n golygu bod cyfraniad Cyngor y Celfyddydau i'r broses fonitro yn fwy cyfyngedig. Mae dadleuon cryf dros wneud gwell

defnydd o arbenigedd Cyngor y Celfyddydau ym maes ariannu a monitro sefydliadau celfyddydol, a hynny'n benodol yn achos Canolfan Mileniwm Cymru.

11. Unwaith yr agorodd y Ganolfan, roedd gwaith monitro Llywodraeth y Cynulliad yn gwbl annigonol. Am gyfnod hir – rhwng canol 2005 a diwedd 2006 – nid oedd gan Lywodraeth y Cynulliad, na Chyngor y Celfyddydau a ddilynodd arweiniad y Llywodraeth, nemor ddim gwybodaeth wedi'i chofnodi am berfformiad y Ganolfan. Roedd hyn o ganlyniad i gamddechongli deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth a'r pryderon y gallai gwybodaeth fasnachol gyfrinachol am y Ganolfan gael ei datgelu. Heb y wybodaeth hon am berfformiad y Ganolfan a'i sefyllfa ariannol, nid oedd modd i Lywodraeth y Cynulliad feithrin dealltwriaeth ddigon cadarn o fusnes y Ganolfan na monitro hynny'n effeithiol. Yn benodol, nid oedd y penderfyniadau i adnewyddu gwarant benthyciad y Ganolfan yn 2005 a 2006, er gwaethaf y ffaith fod y Ganolfan yn gwneud colledion parhaol, wedi'u seilio ar ddadansoddiad trylwyr o sefyllfa ariannol y Ganolfan a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol.
12. Dim ond pan wynebodd y Ganolfan argyfwng ariannol ym mis Hydref 2006 y dechreuodd y Llywodraeth ddatblygu dealltwriaeth ddigonol o'r sefyllfa ariannol. Ar ôl i'r Ganolfan wneud cais am ragor o gymorth ariannol, dangosodd adolygiadau gan ymgynghorwyr a swyddogion yn 2007 bod y Ganolfan mewn sefyllfa ariannol enbydus. Byddai angen rhoi llawer mwy o gymorth refeniw blynyddol ac nid oedd gobaith gan y Ganolfan o ad-dalu ei benthyciad, a oedd yn £13.5 miliwn erbyn hynny. Ym mis Tachwedd 2007, cyhoeddodd y Gweinidog dros ddiwylliant gynnydd yng nghymhorthdal blynyddol y Ganolfan, a fyddai'n codi i £3.7 miliwn, a dywedodd y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn ad-dalu'r benthyciad o £13.5 miliwn. Byddai amodau ynghlwm wrth y pecyn ariannol hwn: adolygiad o brosesau llywodraethu'r Ganolfan a gofyniad fod y Ganolfan yn darparu gwybodaeth fanwl am ei pherfformiad. Dywedwyd wrthym fod yr amodau hyn yn rhan o fframwaith monitro newydd y Llywodraeth, sydd wedi gwella'n arw.

Argymhellion

- (i) Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys amryw o argymhellion gyda'r nod o ledaenu'r gwersi a ddysgwyd o brosiect Canolfan Mileniwm Cymru. Roedd y tystion yn croesawu'r argymhellion hyn. **Rydym yn**

cefnogi argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, ac yn argymhell y dylai Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor y Celfyddydau gyhoeddi adroddiad yn nodi sut y bwriadant ymateb i bob un o'r argymhellion wrth ymateb i'r adroddiad hwn.

- (ii) Ym mis Ionawr 2002, gofynnwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bleidleisio i groesawu'r prosiect. Mae'n amlwg fod risgiau ariannol sylweddol yn gysylltiedig â'r prosiect ar y pryd. Fodd bynnag, er bod yr Aelodau'n gwybod bod risgiau'n dal i fodoli, ni chawsant fanylion digon clir am y risgiau hynny pan ofynnwyd iddynt bleidleisio. **Yn y dyfodol, pan fydd gofyn i Aelodau'r Cynulliad bleidleisio ynghylch ariannu prosiectau mawr, dylent gael asesiad cyflawn o'r risgiau cyllidol ac ariannol.**
- (iii) Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn unigryw ymhlith sefydliadau celfyddydol Cymru gan ei bod yn cael ei reffeniw yn uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad, yn hytrach na chan Gyngor y Celfyddydau. Yn un peth, mae hyn yn golygu bod Cyngor y Celfyddydau yn cyfrannu llai nag arfer at y broses o fonitro'r Ganolfan, o safbwynt celfyddydol ac ariannol. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad ailystyried a ddylai Cyngor y Celfyddydau fod yn gyfrifol am ariannu'r Ganolfan, a thrwy hynny am ei monitro.**
- (iv) Cawsom sicrwydd gan y dystion bod y fframwaith monitro y cytunwyd arno gyda Chanolfan Mileniwm Cymru, er mwyn rheoli'r cynnydd mewn arian cyhoeddus ar gyfer y prosiect, bellach yn addas i'w ddiben. Oherwydd y risg ariannol y mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal i'w hwynebu mewn perthynas â'r Ganolfan, **dylai Llywodraeth y Cynulliad gomisiynu ei wasanaeth archwilio mewnol i gyflwyno adroddiad ar ansawdd y trefniadau monitro ac i ganfod a ydynt yn gweithredu fel y bwriadwyd.**

Rheolodd yr arianwyr y risgiau'n dda wrth ariannu'r gwaith adeiladu, er bod rhai gwersi i'w dysgu o hyd

Gwnaeth yr arianwyr yn dda i roi sylw i'r risg ariannol drwy ddilyn proses gaffael gyda phris penodedig, ond nid oedd Llywodraeth y Cynulliad yn ddigon agored ynghylch natur y risgiau a oedd yn dal i fodoli

Caffael y gwaith adeiladu

13. Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn adeilad eiconig yng Nghymru. Cytunwn â barn Mr Capaldi fod y Ganolfan yn gaffaeliad diwylliannol rhyngwladol o fri ac y gall Cymru fod yn falch ohoni.² Ond roedd y broses o wireddu'r cynlluniau gwreiddiol yn un anodd a hirfaith, ac un o ganlyniadau hynny oedd colli £4.4 miliwn o arian Ewropeaidd.³ Digwyddodd yr oedi hwn yn rhannol o ganlyniad i newid y dull o gaffael ar gyfer y prosiect. Rydym yn pryderu nad yw'n ymddangos bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cydweithio'n ddigon da, gyda Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor y Celfyddydau yn ffafrio prosesau caffael gwahanol.⁴ Eglurodd Mr Brodie fod Llywodraeth y Cynulliad yn sefydliad newydd pan oedd y broses gaffael yn mynd rhagddi, a bod y berthynas â'r cyrff a gâi eu noddi gan y Llywodraeth hefyd yn newydd.⁵ Rydym yn nodi sicrwydd Mr Capaldi bod Cyngor y Celfyddydau wedi mynd ati'n ddiweddar i geisio cydweithio'n well.⁶ Yn y dyfodol, gobeithiwn weld mwy o gydlynw yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.
14. Roedd rhesymau clir dros y gwahaniaeth yn y dulliau caffael a oedd yn cael eu ffafrio, a hynny'n seiliedig ar y blaenoriaethau perthnasol. Blaenoriaeth Llywodraeth y Cynulliad oedd sicrwydd y gost: byddai pwysau mawr wedi'i roi ar y Llywodraeth i ddarparu rhagor o arian pe bai arian y Ganolfan yn dod i ben hanner ffordd drwy'r gwaith adeiladu.⁷ Fel y dywed yr Archwilydd Cyffredinol, mae arfer da wrth gaffael yn awgrymu mai contract pris penodedig yw'r dull mwyaf addas os mai sicrwydd y gost yw'r flaenoriaeth.⁸ Fel yr eglurodd Mr Capaldi, roedd Cyngor y Celfyddydau yn awyddus i

² Atodiad A, paragraff 15

³ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.17

⁴ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.29

⁵ Atodiad A, paragraff 18

⁶ Atodiad A, paragraff 19

⁷ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.9

⁸ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.16

sicrhau ansawdd yr adeilad a'i hygredd artistig, a dyna pam oedd yn ffafrio dull o reoli'r adeiladu.⁹

Profion Llywodraeth y Cynulliad

15. Yn y diwedd, gweithiodd Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor y Celfyddydau yn dda i sicrhau bod eu pryderon yn cael eu rheoli trwy'r broses gaffael. Ym mis Ebrill 2001, ar ôl cael cyngor arbenigol annibynnol, cyhoeddodd y Gweinidog dros gyllid yn y Cyfarfod Llawn fod gan Lywodraeth y Cynulliad ddau brawf ar gyfer y gwaith adeiladu, ac y byddai'n rhaid pasio'r profion hyn os oedd y prosiect i fynd yn ei flaen. Byddai'n rhaid i'r Ganolfan wneud y canlynol:
- rhoi sicrwydd clir ynghylch llywodraethu corfforaethol a dirprwyo awdurdod i is-bwyllgor adeiladu'r Bwrdd;
 - cytuno ar gontract pris penodedig heb i gyfanswm cost y prosiect fod yn fwy na £92 miliwn.¹⁰
16. Roedd yn synhwyrol gofyn i'r Ganolfan ddarparu sicrwydd ynghylch llywodraethu corfforaethol. Roedd gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad bryderon ynghylch gallu'r Ganolfan i gyflawni'r prosiect, gyda phryderon penodol ynghylch amrywiaeth sgiliau aelodau'r Bwrdd, er i'r broses o benodi aelodau a Chadeirydd newydd leddfu ar y pryderon hyn.¹¹ Roedd felly'n synhwyrol i Lywodraeth y Cynulliad ddefnyddio'i grym ariannol i sicrhau bod yr awdurdod priodol yn cael ei ddirprwyo i is-bwyllgor a hwnnw'n cynnwys unigolion gyda'r profiad a'r sgiliau i reoli prosiectau adeiladu mawr.¹²
17. Peth iawn oedd gofyn i'r Ganolfan fabwysiadu dull caffael am bris penodedig, o ganlyniad i bryderon Llywodraeth y Cynulliad am y risg ariannol a sicrwydd y gost. Er gwaethaf ei bryderon am y dull caffael hwn, roedd modd i Gyngor y Celfyddydau ymateb i'r risg i ansawdd yr adeilad drwy sicrhau bod y pensaer gwreiddiol yn rhan o'r tîm adeiladu, a thrwy gynnwys y dyluniadau ar gyfer ardaloedd y sefydliadau preswyl yn rhan o'r dogfennau caffael.¹³ Cytunwn â

⁹ Atodiad A, paragraff 20

¹⁰ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.15

¹¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.13

¹² Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.20

¹³ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.29

Mr Capaldi fod hyn wedi bod yn ffordd gadarnhaol o ddatrys mater a allai fod wedi achosi mwy o broblemau.¹⁴

18. Er ein bod yn cefnogi'r penderfyniad i gaffael am bris penodedig, credwn fod pennu uchafswm pendant o £92 miliwn wedi cyfyngu'n ormodol ar y prosiect. O'r cyfanswm o £92 miliwn, roedd disgwyl i Lywodraeth y Cynulliad ddarparu cyfanswm o £33 miliwn.¹⁵ Dywedodd Mr Brodie nad yw'n anarferol mewn prosiectau fel hyn i'r costau newid ar ôl y broses dendro.¹⁶ Fodd bynnag, roedd pennu uchafswm o £92 miliwn yn cyfyngu ar hyblygrwydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y broses honno – byddai'r prosiect naill ai wedi pasio'r prawf ac wedi mynd yn ei flaen, neu heb fynd yn ei flaen o gwbl.
19. Fel y digwyddodd pethau, pasiodd y prosiect y prawf ar gyfer dirprwyo awdurdod i is-bwyllgor adeiladu'r Ganolfan, ond ni lwyddodd i basio'r prawf ariannol.¹⁷ Nid oedd y contract terfynol i gyd am bris penodedig. Eglurodd Mr Brodie fod rhesymau da dros hyn: byddai sicrhau pris penodedig ar gyfer rhai elfennau penodol wedi bod yn anghytwys o gostus.¹⁸ Am bris o £104 miliwn, roedd cost y prosiect yn uwch o lawer na'r uchafswm o £92 miliwn. Er mwyn pontio'r bwllch, cytunodd Llywodraeth y Cynulliad y byddai'n darparu £4 miliwn yn ychwanegol, gan gynyddu ei gyfraniad o £33 miliwn i £37 miliwn.¹⁹
20. Er ei bod yn amlwg nad oedd y prosiect yn pasio prif elfennau'r prawf, cafodd y Gweinidog dros ddiwylliant ar y pryd ei gynghori gan ei swyddogion fod arian Llywodraeth y Cynulliad o fewn yr uchafswm a bennwyd gan y Gweinidog dros gyllid ar y pryd.²⁰ Y rhesymeg, fel yr eglurodd Mr Brodie, oedd bod cyfraniad Llywodraeth y Cynulliad o £37 miliwn o fewn y paramedr o £25 miliwn i £37 miliwn a bennodd y Gweinidog dros gyllid ym mis Ebrill 2001.²¹ Fodd bynnag, rydym yn amheus iawn ynghylch cryfder y ddadl hon. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn dangos, ym mis Ebrill 2001, fod disgwyl i'r prosiect gostio £92 miliwn, gyda diffyg o £37 miliwn yn y cyllid a oedd wedi'i ymrwymo. Bwriad Llywodraeth y Cynulliad oedd darparu £25

¹⁴ Atodiad A, paragraff 21

¹⁵ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.18 a Ffigur 3

¹⁶ Atodiad A, paragraff 26

¹⁷ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.22

¹⁸ Atodiad A, paragraff 25

¹⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.21

²⁰ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, blwch testun, tudalen 22

²¹ Atodiad A, paragraff 28

miliwn yn rhagor (yn ychwanegol at yr £8 miliwn yr oedd eisoes wedi'i ymrwymo), ac roedd disgwyl i'r £12 miliwn a oedd yn weddill ddod o dair ffynhonnell arall, sef Comisiwn y Mileniwm, lwfansau treth gyfalaf a chodi arian yn breifat. Gan nad oedd y ffynonellau hyn wedi'u cadarnhau, fe'u hystyrid yn risg.²² Yn ein barn ni, roedd yr amrediad o £25 miliwn i £37 miliwn y cyfeiriodd Mr Brodie ato mewn gwirionedd yn ddisgrifiad o lefel y risg yn y broses ariannu ar y pryd; nid oedd yn ymrwymiad gan Lywodraeth y Cynulliad i ddarparu hyd at £37 miliwn yn ychwanegol at yr £8 miliwn yr oedd eisoes wedi'i ymrwymo.

21. Roedd Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol ei bod yn wynebu risg ariannol sylweddol yn sgil y contract adeiladu. Gan nad oedd y prosiect i gyd am bris penodedig, roedd risg y gallai rhai o'r costau amhenodol, sef cyfanswm o tua £15 miliwn, fod yn uwch na'r disgwyl ac y byddai'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ariannu hynny.²³ O ganlyniad i'r gost uwch, roedd y prosiect yn dibynnu ar godi £9.6 miliwn o'r sector preifat, sef dros ddwywaith y £4 miliwn a bennwyd yn rhesymol yn wreiddiol.²⁴ Dywedodd Mr Brodie nad oedd modd darogan lefel yr arian a fyddai'n cael ei godi, a nododd mai cyngor yr Ysgrifennydd Parhaol oedd bod yn rhaid cydnabod ei fod yn darged uchelgeisiol, ond nad oedd sail dros ddweud na fyddai modd ei gyrraedd.²⁵ Cytunwn â'r Archwilydd Cyffredinol ei bod yn annhebygol na fyddai modd dod o hyd i sail o'r fath.²⁶ Ac mae'n syfrdanol na wnaeth y swyddogion gofnodi sut y daethant i'r casgliad y gallai Llywodraeth y Cynulliad ddarparu hyd at £14 miliwn, yn ychwanegol at ei chyfraniad o £37 miliwn, pe bai'r risgiau hyn – sef diffyg mewn arian neu orwario – yn dod i fodolaeth.²⁷
22. Rydym yn pryderu bod Llywodraeth y Cynulliad, wrth geisio dangos bod y prosiect yn pasio'r profion ariannol, wedi gwneud hynny ar draul bod yn agored ac yn dryloyw ynghylch y risg. Mae'n ymddangos i ni fod y sefyllfa ym mis Ionawr 2002 yn ddigon clir: methwyd â phasio'r prawf ariannol, ond roedd Llywodraeth y Cynulliad yn credu bod y prosiect yn teilyngu'r gwariant a'r risg ychwanegol, ac roedd yn awyddus iddo fynd yn ei flaen. Fodd

²² Atodiad A, paragraffau 1.18 i 1.19 a Ffigur 3

²³ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.23

²⁴ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.24

²⁵ Atodiad A, paragraff 37

²⁶ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.24

²⁷ Atodiad A, paragraff 54; Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.25 a Ffigur 5

bynag, wrth geisio cymeradwyaeth Cynulliad Genedlaethol Cymru ym mis Ionawr 2002, ar sail cyngor ei swyddogion, dywedodd y Gweinidog dros ddiwylliant ar y pryd fod y profion ariannol wedi'u pasio.²⁸ O wneud hyn, roedd perygl rhoi'r argraff fod y prosiect yn union fel y disgrifiwyd ef ym mis Ebrill 2001 – pan nad oedd Llywodraeth y Cynulliad yn wynebu unrhyw risg sylweddol o ganlyniad i'r contract pris penodedig – ond nid dyna oedd y sefyllfa. Dywedodd y Gweinidog dros ddiwylliant ar y pryd fod rhai risgiau'n dal i fodoli, ond ni roddodd fanylion am y risgiau hynny nac am y goblygiadau pe baent yn dod i fodolaeth.²⁹ Yn ein barn ni, byddai rhoi asesiad manylach o natur y risgiau a'u heffeithiau wedi rhoi sail well i Aelodau'r Cynulliad ddod i benderfyniad ynghylch cefnogi'r prosiect yn y Cyfarfod Llawn.

Roedd gan yr arianwyr broses gadarn ar gyfer monitro'r cyfnod adeiladu, ond nid oeddent yn ddigon cadarn wrth ymateb i'r risgiau ariannol a oedd yn dal i fodoli wrth i'r gwaith adeiladau ddirwyn i ben

23. Rydym yn cytuno â barn yr Archwilydd Cyffredinol bod yr arianwyr wedi dilyn arfer da wrth fonitro'r cyfnod adeiladu. Penododd yr arianwyr fonitor prosiect ar y cyd. Byddai'r monitor yn darparu adroddiadau cynnydd, yn rhoi gwybod am broblemau a'r camau y dylid eu cymryd i'w datrys, ac yn cynnal cyfarfodydd monitro misol er mwyn monitro'r cynnydd ar y cyd yn y prif feysydd risg.³⁰ Roedd adroddiad blaenorol gan y pwyllgor hwn ar ariannu Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn galw am ragor o gydweithio wrth fonitro pan fydd gan brosiectau cyfalaf mawr nifer o arianwyr.³¹ Mae'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn amlwg yn gam mawr ymlaen, ac yn gam y gobeithiwn ei weld yn cael ei ddilyn mewn prosiectau eraill.
24. Un o'r risgiau y bu'n rhaid i'r arianwyr ei oruchwyllo ac ymateb iddo oedd llif arian. Ym mis Mehefin 2003, cytunodd Llywodraeth y Cynulliad i warantu benthyciad a gafodd y Ganolfan gan fanc masnachol – yn wreiddiol o £10 miliwn, yn codi wedi hynny i £13.5 miliwn – er mwyn rhoi hwb i'w llif arian. Roedd angen arian ar y Ganolfan yn ystod y cyfnodau cynnar er mwyn talu am y gwaith adeiladu, gan nad oedd yn disgwyl cael arian o ffynonellau preifat a thrwy gynllun lwfansau treth gyfalaf tan yn ddiweddarach yn ystod y

²⁸ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.26

²⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.26

³⁰ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.2

³¹ Adroddiad y Pwyllgor Archwilio, *Ariannu Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru*, Ebrill 2006

cyfnod adeiladu. Y bwriad ar y pryd oedd y byddai'r Ganolfan yn ad-dalu'r benthyciad ar ôl cael arian o'r ffynonellau eraill hyn.³² O ddarllen y cofnodion ar y pryd, dywedodd Mr Brodie na wnaeth Llywodraeth y Cynulliad ystyried darparu'r benthyciad ei hun, yn lle gwarantu benthyciad banc, gan nad oedd gan Lywodraeth y Cynulliad yr arian wrth gefn ar gyfer ariannu'r diffyg.³³ Fodd bynnag, mae'n anodd credu na allai Llywodraeth y Cynulliad fod wedi dod o hyd i'r £10 miliwn a oedd yn angenrheidiol pe bai wedi dod i'r casgliad mai darparu benthyciad gan y Llywodraeth oedd y dewis mwyaf addas. Cytunwn â Mr Brodie y dylai'r swyddogion fod wedi rhoi asesiad llawn o'r dewisiadau i'r Gweinidog.³⁴

25. Er bod yr arianwyr wedi rheoli'r cyfnod adeiladu'n dda, credwn i'w gafael ar y prosiect ddechrau llithro wrth i'r cyfnod adeiladu ddirwyn i ben. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod y Ganolfan wedi cael trafferthion wrth geisio cyrraedd ei thargedau codi arian, a oedd yn uchelgeisiol iawn. Roedd y rhodd o £10 miliwn gan Syr Donald Gordon, y gŵr busnes o Dde Affrica, ym mis Tachwedd 2003 yn sicr yn gymorth, ond gan fod y swm hwn i'w dalu dros gyfnod o wyth mlynedd, nid oedd yn datrys y problemau ariannol ar y pryd.³⁵ Roedd y ffaith fod y gorwario yn rhyw £5 miliwn yn dwysáu effaith y diffygion yn yr arian a oedd i'w godi.³⁶ Cawsom sicrhad gan Mr Brodie fod y swyddogion wedi canolbwyntio ar leihau risgiau unrhyw orwario, a bod cymaint â phosibl wedi'i wneud i gyfyngu ar y problemau.³⁷ Fodd bynnag, mae'n aneglur beth yn union a wnaeth yr arianwyr er mwyn ymateb i'r risgiau hynny. Mae'n ymddangos mai ymateb Llywodraeth y Cynulliad oedd cydnabod bod gan y Ganolfan gostau uwch, ond dweud na fyddai'n talu amdanynt.³⁸ Ond nid ydym yn gwybod sut y credai Llywodraeth y Cynulliad y byddai'r Ganolfan yn gallu ariannu'r costau hyn, gan ystyried ei bod eisoes mewn sefyllfa anodd o ran codi arian.³⁹

³² Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 2.4 i 2.6

³³ Atodiad A, paragraff 57

³⁴ Atodiad A, paragraff 58

³⁵ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.9

³⁶ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.7 a Ffigur 7

³⁷ Atodiad A, paragraff 70

³⁸ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.7

³⁹ Atodiad A, paragraff 69

26. O fis Mai 2004, chwe mis cyn iddi agor, nid oedd rhagolygon llif arian y Ganolfan yn awgrymu y byddai modd ad-dalu'r benthyciad.⁴⁰ Dywedodd Mr Brodie wrthym fod yr arianwyr yn dibynnu ar y Ganolfan i godi arian drwy roddion preifat er mwyn ad-dalu'r benthyciad. Fel y dywedodd Mr Brodie, rydym yn cydnabod ei bod yn anodd gwybod pa bryd yn union y dylai'r arianwyr fod wedi derbyn bod lefel yr arian a oedd i'w godi'n breifat yn afrealistig.⁴¹ Ond byddem wedi disgwyl i'r arianwyr gynnal asesiad llawn o'r sefyllfa ariannol wrth i ddiwrnod agoriadol y Ganolfan agosáu, gan gynnwys asesu pa mor debygol oedd y Ganolfan o ad-dalu ei benthyciad, goblygiadau peidio â gwneud hynny, a'r dewisiadau a oedd gan Lywodraeth y Cynulliad. Ni wnaethpwyd hyn, a chytunwn â Mr Brodie y dylai'r swyddogion fod wedi rhoi cyngor llawnach ynghylch manteision ac anfanteision gwahanol ddewisiadau.⁴²

Yn gyffredinol, nid oedd yr arianwyr yn ddigon effro i'r risgiau yn y cyfnod gweithredol, ac unwaith yr agorodd y Ganolfan, roedd gwaith monitro Llywodraeth y Cynulliad yn gwbl annigonol

Edrychodd yr arianwyr ar wersi a ddysgwyd o brosiectau amlwg eraill, ond ni wnaethant ddigon i sicrhau bod cynllun busnes y Ganolfan yn gadarn pan gymeradwywyd y prosiect

27. Bwriad gwreiddiol y Ganolfan oedd cynnal ei busnes heb unrhyw gymhorthdal cyhoeddus. Fodd bynnag, roedd yr arianwyr yn amheus ynghylch y cynllun hwn o'r dechrau, ac roedd hynny'n gwbl briodol. Am hynny, aethant ati i edrych ar y gwersi a ddysgwyd o brosiectau amlwg eraill a oedd wedi gorfod dibynnu ar gyllid cyhoeddus ychwanegol pan oedd y rhagolygon ar gyfer nifer yr ymwelwyr ac incwm yn rhy optimistaidd. Cynhaliodd yr arianwyr eu hasesiadau eu hunain, a gofynnwyd i'r Ganolfan ddarparu tystiolaeth yn sail i'w rhagdybiaethau. Ar ôl y broses hon, lluniodd y Ganolfan gynlluniau manylach, ond roedd cynllun mis Medi 2000 yn dal i ddangos y byddai'n gallu gweithredu heb unrhyw gymhorthdal cyhoeddus.⁴³ Roedd Cyngor y Celfyddydau yn arbennig o bryderus ynghylch posibilrwydd diffygion annisgwyladwy, ac fel yr eglurodd Mr Capaldi, ysgrifennodd at Lywodraeth y Cynulliad i ddatgan ei bryderon ac i ddisgrifio'r goblygiadau i'r

⁴⁰ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.9 a Ffigur 8

⁴¹ Atodiad A, paragraff 66

⁴² Atodiad A, paragraff 66; Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.22

⁴³ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 3.2 i 3.8

sefydliadau a oedd yn cael eu noddi gan y Cyngor a fyddai wedi'u lleoli yn y Ganolfan. Nodwyd hefyd y byddai angen cymhorthdal refeniw sylweddol.⁴⁴

28. Comisiynwyd cwmni PricewaterhouseCoopers gan Lywodraeth y Cynulliad i adolygu'r cynllun busnes a gyhoeddodd y Ganolfan ym mis Medi 2000, ond nid oedd yn rhan o gylch gwaith yr ymgynghorwyr i gadarnhau'r rhagolygon yn y cynllun busnes hwnnw. Roedd Mr Brodie yn cydnabod bod cylch gwaith yr adolygiad hwn yn gyfyngedig ac nad oedd yn rhoi sicrwydd llawn bod y cynllun busnes yn addas ar y pryd. Eglurodd fod y swyddogion yn amheus a fyddai gwaith ymgynghori mwy trylwyr wedi gallu canfod yr elfennau sylweddol yn y cynllun busnes a barai ansicrwydd – megis i ba raddau y byddai'r Ganolfan wedi gallu ennyn brwdfrydedd y cyhoedd.⁴⁵ Rydym yn cydnabod na ellid bod wedi disgwyl i Lywodraeth y Cynulliad gael gwared â phob ansicrwydd yng nghynllun busnes y Ganolfan ar y pryd. Ond roedd yn hanfodol bod Llywodraeth y Cynulliad yn deall natur a maint yr ansicrwydd, ac felly'r risg ariannol bosibl y gallai'r Llywodraeth fod yn ei hwynebu. Mae'n anodd gweld sut oedd Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl deall hyn heb gadarnhau cadernid y dystiolaeth a oedd yn sail i ragolygon busnes y Ganolfan.
29. Ym mis Ebrill 2001, ar ôl rhagor o drafodaethau â'r Ganolfan, cyhoeddodd y Gweinidog dros gyllid ar y pryd y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried darparu arian blynyddol fel a ganlyn: £750,000 o gymorth refeniw ynghyd â £450,000 ar gyfer gwaith cynnal a chadw, i'w dalu'n uniongyrchol i'r Ganolfan; ac £800,000 i dalu am y costau uwch i rai o'r sefydliadau preswyl.⁴⁶ Gofynnodd y Gweinidog dros gyllid ar y pryd i Bwyllgor Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael sicrwydd y gallai'r Ganolfan weithredu gyda'r setliad ariannol hwn pe bai'r prosiect yn mynd yn ei flaen.⁴⁷ Dywedodd Mr Brodie wrthym fod Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod ar y pryd y posibilrwydd y byddai'n rhaid ystyried rhoi rhagor o refeniw.⁴⁸
30. Ar ôl cael addewid o arian ychwanegol, lluniodd y Ganolfan gynllun busnes diwygiedig ym mis Mai 2001. Roedd y cynllun diwygiedig yn cynnwys newid sylfaenol: ynghyd ag ymgorffori'r cymhorthdal refeniw uwch, roedd y

⁴⁴ Atodiad A, paragraff 86; Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru paragraff 3.5

⁴⁵ Atodiad A, paragraff 77

⁴⁶ Atodiad A, paragraffau 92 a 93; Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 3.10 a 3.11

⁴⁷ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.12

⁴⁸ Atodiad A, paragraffau 84 a 99

Ganolfan yn bwriadu darparu rhaglen o safon ryngwladol a oedd yn fwy uchelgeisiol a chostus.⁴⁹ Roedd Mr Brodie yn cydnabod na chafwyd arbenigwyr annibynnol i graffu ar y rhagdybiaethau diwygiedig yn y cynllun hwnnw.⁵⁰ Cytunwn â Mr Capaldi i'r arianwyr gymryd cam gwag yma.⁵¹ Yn ein barn ni, roedd hwn yn gyfle a gollwyd i gynnal asesiad cadarn o'r risgiau yng nghynllun busnes y Ganolfan cyn cymeradwyo'r prosiect. Cynigiodd y ddau dyst eglurhad dros hyn: esboniodd Mr Capaldi bod y cymhorthdal refeniw a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros gyllid ar y pryd wedi ymateb i brif bryderon Cyngor y Celfyddydau ac felly i'r Cyngor droi ei olygon tuag at gaffael, tra'r oedd Llywodraeth y Cynulliad yn dal yn amheus ynghylch ei gallu i ganfod yr elfennau o ansicrwydd yn y cynllun.⁵² Fodd bynnag, roedd diffyg gwaith craffu arbenigol ar ran yr arianwyr yn wendid mawr. Mae'n wir fod Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi adolygu a chymeradwyo'r cynllun busnes – sef ffordd dda o ennyn diddordeb a chefnogaeth yr Aelodau – ond nid oedd hyn yn gwneud iawn am y diffyg gwaith craffu arbenigol ac annibynnol.⁵³ Roedd Mr Capaldi a Mr Brodie ill dau'n derbyn y dylid bod wedi cynnal adolygiad arbenigol, ac y byddai'r prosiect wedi bod ar seiliau cadarnach pe byddid wedi gwneud hynny.⁵⁴

31. Un o'r prif wersi a ddysgwyd o hyn yw bod angen i arianwyr ganolbwyntio ar y costau yn ogystal ag ar incwm. Roedd yr arianwyr yn amlwg yn ymwybodol o'r risgiau i incwm, ac roedd llawer o'r gwaith craffu a gynhaliwyd yn canolbwyntio ar lefelau'r cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, ni chraffwyd yn yr un modd ar gostau rhedeg y Ganolfan, ac mae'r rheini yr un mor bwysig wrth edrych ar ba mor debygol yw busnes o dalu'i gostau a bod yn gynaliadwy.⁵⁵

Gyda'r diwrnod agoriadol yn agosáu, roedd yr arianwyr yn gwybod bod llawer o risgiau ynghlwm wrth gynllun busnes y Ganolfan, ond ni luniwyd cynllun clir ar gyfer monitro'r cynnydd

32. Mewn prosiectau cymhleth fel prosiect y Ganolfan, nid yw'n anarferol i gynlluniau busnes newid. Unwaith i'r gwaith adeiladu ddechrau, dechreuodd y Ganolfan addasu ei chynlluniau busnes a manylu arnynt. Ym mis Rhagfyr 2002, lluniodd y Ganolfan gynllun diwygiedig yn dangos y byddai'n gwneud

⁴⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.13

⁵⁰ Atodiad A, paragraff 93

⁵¹ Atodiad A, paragraff 92

⁵² Atodiad A, paragraff 93

⁵³ Atodiad A, paragraff 92; Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.14

⁵⁴ Atodiad A, paragraffau 92 a 93

⁵⁵ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.9

colled, hyd yn oed ar ôl cael cymhorthdal refeniw. Fodd bynnag, ar y pryd, roedd y Ganolfan yn y broses o recriwtio Prif Weithredwr newydd, a fyddai'n amlwg yn awyddus i ddatblygu'r cynllun busnes, felly dewisodd yr arianwyr aros cyn cynnal archwiliad manylach.⁵⁶ Cawsom sicrwydd gan Mr Capaldi y gwnaed gwaith trylwyr i asesu'r cynllun busnes dilynol a luniodd y Ganolfan ym mis Hydref 2003, a ragwelai ddiffyg o £1.4 miliwn yn y flwyddyn gyntaf.⁵⁷ Penodwyd ymgynghorwyr gan Gyngor y Celfyddydau i adolygu'r cynllun. Canfu'r ymgynghorwyr y gallai fod angen cymhorthdal refeniw blynyddol o hyd at £3 miliwn ar y Ganolfan.⁵⁸ Ar ôl trafod gyda Chyngor y Celfyddydau a Llywodraeth y Cynulliad, cytunodd y Ganolfan y byddai'n llunio cynllun diwygiedig yn dangos sut y byddai'n talu'i chostau dros y pum mlynedd cyntaf.⁵⁹

33. Yn ôl yr ymgynghorwyr a benodwyd gan Gyngor y Celfyddydau, roedd llawer o risgiau ynghlwm wrth y cynllun busnes diwygiedig a luniodd y Ganolfan ym mis Gorffennaf 2004. Dangosodd y cynllun y byddai'r Ganolfan yn talu'i chostau, ond y byddai'n dibynnu ar y canlynol: rhoddion preifat uwch o lawer na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol; rhoddion ychwanegol unigol gan gynnwys rhywfaint o'r arian gan y prif roddwr; a defnyddio arian Llywodraeth y Cynulliad a glustnodwyd ar gyfer cynnal a chadw er mwyn gwneud iawn am golledion gweithredol. Daeth yr ymgynghorwyr i'r casgliad bod posibilrwydd credadwy y gallai'r Ganolfan ddarparu cyllideb gytbwys yn 2005, ond bod risg fawr hefyd y byddai'n wynebu diffyg o fwy na £200,000.⁶⁰
34. Roedd y rhagolygon yn y cynllun busnes a nodai y byddai'r Ganolfan yn talu'i chostau yn rhagdybio y byddai'r benthyciad yn cael ai ad-dalu, ac felly nid oedd yn cynnwys unrhyw gostau ad-dalu na chostau llog. Roedd y dadansoddiad sensitifrwydd yn y cynllun busnes yn disgrifio'r sefyllfa waethaf bosibl, lle byddai benthyciad o £2 miliwn yn cael ei drosglwyddo i'r cyfnod gweithredol. Byddai hynny'n gofyn am £500,000 y flwyddyn ar gyfer costau'r ad-daliadau a llog. Fodd bynnag, ym mis Mai 2004 – cyn llunio'r cynllun – dangosodd rhagolygon llif arian y Ganolfan y byddai benthyciad o tua £7

⁵⁶ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.16

⁵⁷ Atodiad A, paragraffau 114 a 131; Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.17

⁵⁸ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 3.17 a 3.18

⁵⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.19

⁶⁰ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.21

miliwn yn cael ei drosglwyddo i'r cyfnod gweithredol.⁶¹ Er mai dyna oedd y bwriad gwreiddiol, nid oedd modd i'r tystion roi esboniad boddhaol pam na wnaeth Llywodraeth y Cynulliad edrych eto ar y risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r benthyciad, edrych ar effaith hynny ar brosesau gweithredol y Ganolfan, ac edrych ar y dewisiadau a oedd ar gael.⁶²

35. Rhoddodd yr ymgynghorwyr argymhellion clir ynghylch yr angen i'r Ganolfan fabwysiadu polisiau ar gyfer diffygion annisgwyladwy a chynlluniau wrth gefn. Mae'n anesboniadwy pam na wnaeth Cyngor y Celfyddydau a Llywodraeth y Cynulliad weithredu ar sail yr argymhellion hyn a sicrhau bod y polisiau a'r cynlluniau hynny ar gael.⁶³ Cawsom sicrwydd gan Mr Capaldi fod Cyngor y Celfyddydau wedi edrych ar yr adroddiadau'n ofalus iawn.⁶⁴ Ond yn ogystal â'u hastudio, roedd angen gweithredu ar sail yr argymhellion yn yr adroddiadau hyn hefyd.
36. Cyn iddi agor, mae'n ymddangos yn rhyfeddol i ni na weithiodd Llywodraeth y Cynulliad gyda'r arianwyr i lunio cynllun clir ar gyfer monitro perfformiad y Ganolfan.⁶⁵ Roedd hwn yn fusnes newydd ac iddo risgiau mawr, ynghyd â'r her o drosglwyddo benthyciad mawr i'r cyfnod gweithredol. Yn syml, nid oedd ymateb swyddogion Llywodraeth y Cynulliad – sef aros i weld⁶⁶ – yn ddigon da. Roedd Mr Brodie yn derbyn nad oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud digon a chytunodd y dylid bod wedi cyflwyno cynllun monitro a fyddai wedi helpu Llywodraeth y Cynulliad yn sylweddol i ganfod y problemau wrth iddynt ymddangos.⁶⁷ Dywedodd ei fod yn ei chael hi'n anodd rhoi ateb boddhaol pam na wnaeth Llywodraeth y Cynulliad gyflwyno cynllun o'r fath.⁶⁸

Ar ôl i'r Ganolfan agor, roedd gwaith monitro Llywodraeth y Cynulliad yn gwbl annigonol, er i ni gael sicrwydd fod hynny wedi gwella bellach

37. Fel yr ariannwr refeniw, gan Lywodraeth y Cynulliad oedd y prif gyfrifoldeb dros fonitro'r Ganolfan. Mae cyfraniad Cyngor y Celfyddydau felly yn fwy cyfyngedig, er bod cynrychiolwyr yn bresennol yng nghyfarfodydd Bwrdd Canolfan Mileniwm Cymru fel arsylwyr.⁶⁹ Eglurodd Mr Capaldi mai'r

⁶¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.22 a Ffigur 8, tudalen 27

⁶² Atodiad A, paragraff 124

⁶³ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.21

⁶⁴ Atodiad A, paragraff 134

⁶⁵ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.24

⁶⁶ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.23

⁶⁷ Atodiad A, paragraffau 105 a 124

⁶⁸ Atodiad A, paragraff 106

⁶⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 4.3 a 4.20

Ganolfan yw'r unig sefydliad celfyddydol y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ariannu'n uniongyrchol. Ar y llaw arall, mae gan Gyngor y Celfyddydau bortffolio o sefydliadau celfyddydol y mae'n eu hariannu ac felly'n eu monitro'n rheolaidd. Dywedodd Mr Capaldi wrthym y byddai manteision pe bai'r Ganolfan wedi'i chynnwys yn y portffolio hwn, fel rhan o'r teulu diwylliannol ehangach⁷⁰ Awgrymodd Mr Brodie y gallai Gweinidogion ystyried trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarparu arian refeniw yn y dyfodol, pan fydd yn amlwg bod sefyllfa ariannol y Ganolfan yn sefydlog.⁷¹ Nid ydym yn arbenigwyr ar y materion hyn, ond yn achos y Ganolfan, mae'n ymddangos yn rhyfedd iawn i ni na wneir defnydd mwy o brofiad ac arbenigedd Cyngor y Celfyddydau o ran rhoi arian refeniw i sefydliadau celfyddydol.

38. A hithau'n gyfrifol am roi'r arian refeniw, roedd gwaith monitro Llywodraeth y Cynulliad wrth olrhain cynnydd y Ganolfan yn gwbl annigonol. Rydym yn cydnabod i rywfaint o waith monitro gael ei wneud, gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor y Celfyddydau yn bresennol yng nghyfarfodydd Bwrdd y Ganolfan. Rydym yn cydnabod hefyd y cynhaliwyd cyfarfodydd cynnydd rhwng swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, staff a Chadeirydd y Ganolfan, a'r Gweinidog dros ddiwylliant ar y pryd.⁷² Ond nid oedd mynychu cyfarfodydd yn agos at fod yn ddigon, gan ystyried bod risgiau mawr yn gysylltiedig â'r cyfnod gweithredol, a'r ffaith bod Llywodraeth y Cynulliad yn agored yn ariannol i'r risgiau hynny fel gwarantwr y benthyciad. Cytunwn â'r Archwilydd Cyffredinol y dylai'r swyddogion fod wedi cynnal asesiad manwl o berfformiad y Ganolfan a'i sefyllfa ariannol gyffredinol.⁷³
